

Ymateb Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith i ddrafft-gynllun Cyngor Sir Gwynedd *Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir - Tachwedd 2007*

1. YMGYNGHORI

- (1) Cydnabyddwn fod y Cyngor Sir wedi gwneud llawer fwy o ymdrech o ran ymgynghori a phobl Gwynedd am ddyfodol y rhwydwaith o ysgolion nag sydd wedi digwydd mewn siroedd eraill. Aeth y Cyngor tu hwnt i'r hyn yr oedd yn rhaid ei wneud yn statudol trwy drefnu degau o gyfarfodydd cyhoeddus cychwynnol a thrwy gynhyrchu'n awr ddogfen swmpus sy'n cynnwys astudiaethau achos am wahanol drefniadau lle mae cynghorau eraill wedi ymfodloni ar ychydig o frawddegau cyffredinol eu natur. Cydnabyddwn hefyd fod nifer o ardaloedd efallai bydd yn croesawu'r datblygiadau yn y drafft-gynllun
- (2) Fodd bynnag, mae amheuaeth bendant nad yw casgliadau'r drafft-gynllun hwn yn adlewyrchu'r cyfraniadau a wnaed yn y cyfarfodydd ymgynghori cychwynnol. Mae teitl y cynllun "Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er lles addysg HOLL blant Gwynedd" yn nawddoglyd ac yn amlwg yn gamarweiniol gan na allai unrhyw gynllun honni fod er lles pawb – dyna ystyr cymryd penderfyniadau rhwng opsiynau. Mae'r adran gyntaf hefyd yn gamarweiniol. Honnir mai cymhelliad addysgol yn unig sydd wrth wraidd y cynllun. Mae'n amlwg i bawb nad oes unrhyw argyfwng addysgol anhygoel newydd daro Gwynedd ac mai cymhellion cyllidol sydd wedi gyrru'r cynllun, o leiaf yn y lle cyntaf. Gwell fyddai cydnabod hyn yn agored. Mae rhieni'n deall fod problemau ariannol yn wynebu Awdurdodau Lleol ond mae llawer ohonynt yn gwybod o brofiad fod eu hysgolion yn cynnig addysg dda yn y drefn bresennol.
- (3) **Mae gan Gymdeithas yr Iaith bryder difrifol am y broses ymgynghori arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.** Wrth fod y drafft yn mynd trwy Bwyllgor Craffu'r Cyngor, sicrhawyd pawb y byddai ymgynghori ar yr holl gynllun rhwng Ionawr a Mawrth 2008 ac y byddai fersiwn derfynol y Cynllun gerbron y Cyngor ym mis Gorffennaf. Dywedwyd wrthym gan arweinwyr y Cyngor mai dim ond wedyn - ym Medi 2008 - y cychwynnid y broses statudol ffurfiol o ymgynghori gyda phob ysgol am y cynllun terfynol ar eu cyfer. Cyfeiriwyd at yr ymgynghori rhwng Ionawr a Mawrth yn gyson fel "*ymgynghori anffurfiol*" e.e. dywedodd arweinydd y Cyngor mewn e-bost ataf "*Yr wyf yn credu y gallwn ni dderbyn yr awgrym i ehangu'r ymgynghori anffurfiol*" Yn ôl y ddealltwriaeth hon o'r sefyllfa, dehonglwyd rhan 6.7.2 o'r drafft-gynllun "*Medi 2008 - Cyhoeddi rhybuddion statudol ar gyfer ysgolion Categori A*" i olygu cychwyn y broses statudol o ymgynghori ffurfiol ar gynigion terfynol. Disgwylid wedyn y deuai adroddiad am bob achos unigol yn ôl at y Cyngor ac y byddai wedyn yn cyhoeddi Rhybuddion Statudol i gau ysgol os yn briodol. Buom yn ddrwgdybus o'r dehongliad hwn a roddwyd gan gynghorwyr oherwydd ei fod yn amlwg na fyddai wedyn amser ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r Rhybudd (2 fis), penderfyniad Cyngor ac yna danfon papurau at Lywodraeth y Cynulliad am benderfyniad (o leiaf 3 mis eto) a rhoi tymor o rybudd i rieni (felly cwblhau'r broses erbyn Mawrth 2009).

Yr ydym wedi ceisio arweiniad gan Adran Addysg y Cynulliad a daeth cadarnhad mai "*cyfnod ymgynghori statudol*" yw'r term a roddir ar gyfer y cyfarfodydd yn yr ysgolion unigol a chyda chymuned ehangach, ac mai "*cyfnod gwrthwynebiadau*" yw'r term a ddefnyddir am y cyfnod o ddau fis yn dilyn cyhoeddi Rhybudd Statudol o

fwriad i gau ysgol (sydd yr un mor berthnasol i greu ffederasiwn ag i gau ysgol yn gyfan gwbl). Dywed Adran Addysg y Cynulliad,

“Usually there will first be a decision by elected members to begin consultation on a specific closure proposal - this may follow on from a wider strategic review and perhaps informal local discussions.”

Ac eto

“I would describe all this as the statutory consultation period (simply because it is the consultation period and it is a statutory requirement). It should be followed by some consideration of the outcome of the consultation: we look for evidence that the views expressed have been taken into account and weighed up before a decision is taken to proceed to the publication of statutory notices. Usually the LEA prepare a report to Cabinet summarising the consultation responses and making recommendations. I would describe the two months following the publication of statutory notices as the objection period - for obvious reasons!”

Yn ôl arweinwyr y Cyngor, mae i'r ymgynghori Ionawr-Mawrth 2008 statws felly *“informal discussions”*, yn sicr nid y *“statutory consultation period”*. Mae'r cynghorwyr tan yr argraff y bydd ymgynghori statudol ym Medi. Mae'r swyddogion ar y llaw arall - ac nid ydynt wedi ceisio celu hyn yn y drafft gynllun - yn amlwg yn gweld y cyfarfodydd mewn ysgolion unigol rhwng Ionawr-Mawrth 2008 fel y cyfnod ymgynghori statudol. Er eu bod wedi'u camarwain i gredu mai ymgynghori anffurfiol anstatudol yn unig sydd yn y fantol, dyma mewn gwirionedd unig gyfle'r ysgolion a'r cymunedau i newid barn swyddogion a chynghorwyr. Y cwbl y gellid ei wneud yn Medi/Hydref 2008 (*“y cyfnod gwrthwynebiadau”*) yw mynegi gwrthwynebiad i Lywodraeth y Cynulliad i gynllun y Cyngor ar gyfer eu hysgol.

Yr ydym yn derbyn yn llwyr integriti'r cynghorwyr arweiniol ac yn sicr nad camarwain bwriadol sydd wrth wraidd y broblem hon ond diffyg cyfathrebu oddi fewn i'r Cyngor. Yr hyn sy'n sicr yw **na all cyfnod ymgynghori statudol gychwyn yn Ionawr 2008** ar weithrediadau lleol y drafft-gynllun. Rhaid i Fwrdd y Cyngor a'r Cyngor llawn newid y penderfyniad hwn oherwydd:

- nad oedd hyd yn oed arweinwyr y Cyngor yn ymwybodol o arwyddocâd y penderfyniad (sef cychwyn cyfnod ymgynghori statudol) pan bleidleisiwyd dros yr amserlen yn y Pwyllgor Craffu.
- dod angen trafodaeth ar holl strategaeth y drafft-gynllun cyn penderfynu ar weithrediadau lleol
- na fyddai amser - o dan amserlen y swyddogion - i roi sylw teilwng i dynged pob ysgol unigol. Does dim hawl statudol i weithredu newid “blanced”. Rhaid yn ôl y gyfraith rhoi sylw dyladwy i bob achos unigol. Gan nad oes braidd unrhyw brofiad o gwbl o gau ysgolion yng Ngwynedd, mae'n hollol ffantasiaidd i gredu y gallai swyddogion roi ystyriaeth deilwng i dynged 33 o ysgolion (gan gofio fod greu ffederasiwn hefyd yn golygu'r un broses o gau ysgolion yn ôl y gyfraith) o fewn cyfnod mor fyr. Rhaid cynnal y cyfarfodydd, paratoi crynodeb o'r ymatebion (ac fe fydd yn lluosog), dadansoddi pob ymateb a pharatoi cynnig i'r Cyngor ar bob achos unigol wedi ystyried yr ymateb ynghyd a gwneud astudiaethau effaith ar y gymuned leol a'r iaith ym mhob achos unigol.

Galwn felly ar y Cyngor i newid yr amserlen fel a ganlyn:

- **Ionawr 2008 > Mawrth 2008** – Gwahodd ymatebion gan yr ysgolion unigol yr effeithir arnynt gan y drafft-gynllun *ynghyd a gwahodd trafodaeth ac ymatebion am yr holl strategaeth – nid Categori A yn unig.*
- **Gorffennaf 2008** - Cyflwyno i'r Cyngor drafft terfynol o Gynllun Diwygiedig yn seiliedig ar yr ymatebion.
- **Medi 2008** - Cychwyn proses Ymgynghori Statudol fesul ardal (Categori A) h.y. cynnal y cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn yr ysgolion unigol am y cynigion pendant a gynhwysir yn y

drafft terfynol ar gyfer eu hysgol nhw. Byddai'r broses hon yn ymarferol yn parhau o ardal i ardal hyd at Fawrth 2009.

- **Mawrth 2009 > Medi 2009** – Graddol fynd trwy'r broses o gyhoeddi Rhybuddion Statudol ar gyfer cau ysgolion/safleoedd gan obeithio fod pob ymdrech erbyn hynny i greu consensws.
- **Medi 2010** – Gweithredu unrhyw newidiadau. (Byddai Categoriâu B a C hefyd flwyddyn yn ddiweddarach.)

Pwysleisiwn nad colli blwyddyn o amser fyddech trwy fabwysiadu'r amserlen hon, gan nad oes unrhyw bosibiliad yn y byd y gallech fynd trwy'r amserlen a fwriadwyd beth bynnag ac y daw popeth yn rhwyddach o fod wedi caniatáu trafodaeth strategol ar yr holl gynllun ac yna sylw dyladwy i bob cynnig unigol.

2. Y BYGYTHIAD I GAU LLAWER O YSGOLION PENTREFOL CYMRAEG

- (1) O dderbyn yr holl argymhellion yn y drafft-gynllun, fe gollai nifer sylweddol o gymunedau pentrefol Cymraeg Gwynedd eu hysgolion yn gyfan gwbl. Mae'r drafft-gynllun yn gwbl ddiffygiol gan nad oes yn unman astudiaethau effaith ar yr iaith ac ar gymunedau lleol o gau'r ysgolion hyn. Nid ar chwarae bach y mae mentro tynnu ffocws cymdeithasol ac addysgol pentrefi Cymraeg, ac mae'n anhygoel ystyried y gellid cyflawni gweithred dorfol o'r fath o fewn ychydig o fisoedd heb ymchwilio i'r canlyniadau. Cydnabyddwn y bydd y canlyniadau'n amrywio o gymuned i gymuned, ond nid oes yma unrhyw ystyriaeth o'r mater. Nid oes yn y drafft-gynllun ymwybyddiaeth a'r rhan a chwaraeae ysgol yn neinameg cyfathrebu cymuned bentrefol, ac yn enwedig felly ymhlith y plant a rhieni ifainc. Nid oes dadansoddiad na chydabyddiaeth o werth ysgol yn yr union gymuned i gymhathu mewnfudwyr. Tynnwn sylw at y ffaith fod canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar gau ysgolion yn mynnu fod astudio effaith cau ar y gymuned leol ac ar yr iaith Gymraeg.
- (2) Nid oes yn y drafft-gynllun ymdriniaeth a hawl plant i dderbyn addysg sylfaen. Gan na ellir cludo ar fysis plant tan 5 oed, gallai llawer o blant gael eu hallgau o addysg sylfaen os na fydd ysgol yn eu hunion gymuned.
- (3) Nid oes chwaith ymdriniaeth a'r effaith addysgol ar y gymuned gyfan o dynnu canolfan addysg o'r pentre' - yn cynnwys y posibiliad o ddefnyddio'r adnoddau ar gyfer addysg gymunedol a dysgu teuluol (e.e. dysgu'r iaith i fewnfudwyr).
- (4) Mae'r drafft-gynllun yn llawn o gyfeiriadau at adeiladau ysgolion, ond nid oes ynddo unrhyw ymdriniaeth a gwerth *addysgol* cefnogaeth rhieni a chymuned, a'r sicrwydd a gaiff y plant lleiaf o gychwyn eu gyrfa addysgol yn eu hunion gymuned mewn adeilad y maent eisoes yn gyfarwydd â hi.
- (5) **Cydnabyddwn fod prif wendid yr holl ddrafft-gynllun yn y cyswllt hwn y tu hwnt i gyfrifoldeb y swyddogion addysg.** Dywedir fod llawer o'r ysgolion pentrefol yn anhyfyw fel ysgolion, ac na ddylid gwario arian ar adeiladau yn hytrach nag ar y disgyblion. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cynnig y gallai llawer o'r adeiladau hyn fodd bynnag fod yn hyfyw fel Canolfannau Datblygu Cymunedol y mae trefnu ysgol gynradd ynddynt yn rhan o'u swyddogaeth yn unig. Yr ydym wedi galw am drefn lle gellir gwneud cais i Lywodraeth y Cynulliad i gymryd drosodd adeiladau mewn achosion addas ar gyfer trefnu ystod o wasanaethau mewn cydweithrediad a Swyddogion Adfywio'r Cyngor Lleol gan gynnwys lleoli swyddi cyhoeddus tu fewn i'r adeiladau yn lle adeiladu/rhentu swyddfeydd. Byddai'r Awdurdod Addysg yna'n rhentu hynny o'r capasiti y mae ei angen i drefnu ysgol a

byddai'r adnoddau hyn hefyd ar gael at ddibenion eraill. Dyna ddileu yn syth gapasiti dros ben a chyfrifoldeb am welliannau adeilad. Ni fyddai'n ateb ym mhob achos, ond byddai'n cynnig opsiwn ychwanegol ac yn dychwelyd y ddatl am ysgolion pentrefol i feysydd addysgol yn hytrach na bod yn ddatl am gost adeilad. Hoffem weld y Cyngor yn cefnogi'r cais at Lywodraeth y Cynulliad am ddatblygu mentr a chyllideb o'r fath (a allai wedyn denu cyllid nad sydd ar gael ar gyfer ysgolion). Mae manylion ein hargymhelliion yn ein dogfen bolisi "*Ysgolion Pentrefol - yr achos dros Resymoli Cadarnhaol*"

3. FFEDERASIYNAU

- (1) Cydnabyddwn fod y Cyngor wedi bod yn barod i ystyried opsiynau eraill heblaw am gau ysgolion a chreu ysgolion ardal. Ond yr ydym yn pryderu fod un model arbennig o ffederasiwn yn cael ei wthio ar ardaloedd.
- (2) Credwn mai camgymeriad ar ran y Cyngor yw gwrthod yn gyfan gwbl y posibiliad fod nifer o ysgolion yn gallu cadw eu hunaniaeth annibynnol tra'n cynnig profiad addysgol ehangach o gydweithio'n wirfoddol mewn clwstwr o ysgolion cyfagos. Mae llawer o fodolau potensial o glystyru. Gall gynnwys rannu nodion ac adnoddau addysgol, cyfnewid athrawon, rhannu safleoedd at rai dibenion, hyd yn oed raddfa sylweddol o bwrcasu a gweinyddu ar y cyd. Gallai pob Bwrdd Llywodraethol gyfrannu tuag at ran-gyflog gweinyddwr canolog gan ganiatáu i brifathrawon addysgu. Ni raid wrth ffederasiwn ffurfiol ym mhob achos i sicrhau manteision cydweithio.
- (3) Nid yw'r drafft-gynllun wedi amgyffred yr holl ystod o opsiynau potensial ar gyfer ffederasiynau, a gallai llawer o'r ysgolion sydd wedi'u nodi ar gyfer cau ffynnu mewn ffederasiynau o fath sy'n gweddu i'w hamgylchiadau. Mae swyddogion addysg Gwynedd wedi cael eu darbwyllo fod yn rhaid i ffederasiwn fod o faintioli arbennig er mwyn rhyddhau prifathro rhag unrhyw gyfrifoldeb dysgu. Dyma un model yn unig ar ffederasiwn. Rhoddir camargraff llwyr am Ysgol Ffedereiddiedig Carreg Hirfaen (Coetmor, sic) yn Sir Gaerfyrddin. Crëwyd y ffederasiwn hwnnw ddegawd yn ol trwy 3 ysgol - un gyda 9 disgybl, un gyda 19 disgybl a'r llall gyda 55 disgybl. Tyfu a wnaeth yr ysgol ffedereiddiedig hon i gyrraedd y nifer o ddisgyblion sydd heddiw ac sy'n cael ei ddyfynnu yn y drafft-gynllun. Mae'r ddau safle lleiaf yn agos iawn at ei gilydd ac felly mae plant CA1 y ddau bentre mewn un safle, a phlant CA2 yn y llall. Mae'r naill safle'n agor a chau 10 munud o flaen y llall er mwyn galluogi rhieni i gydweithio i godi plant o'r 2 safle. Mae prifathro (nid digyswllt) y safle fwyaf yn brifathro ar yr holl ysgol ffedereiddiedig. Rhoddaf y manylion hyn er mwyn arddangos mor hyblyg y gall ffederasiwn llwyddiannus fod. A dweud y gwir, mae llwyddiant y cysyniad yn ei hyblygrwydd gan ei fod yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol. Crëwyd y cynllun gan y cymunedau yn hytrach na swyddogion a hwylusodd y broses. Mae llywodraethwyr ysgol ffedereiddiedig yn gallu diwygio'r trefniadau fel y mae amgylchiadau'n newid.
- (4) Yr ydym yn brawychu at yr awgrym - yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu, nid yn y ddogfen - mai rhan o ddiben creu Ysgol Ffedereiddiedig allai fod dod a llywodraethwyr gwahanol ysgolion ynghyd er mwyn galw am ysgol ardal! Cynllun hirdymor a chynaliadwy yw creu ffederasiwn, ac y mae'n rhaid mynd trwy'r un broses statudol i gau safle ysgol ffedereiddiedig ag i gau ysgol gyfan.

5. GWEITHIO GYDA PHOBL

Mewn ymateb i gyhoeddi'r drafft-gynllun, daeth cannoedd o bobl i Gaernarfon ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu. Mewn oes o ddifaterwch dyma bobl oedd yn amlwg gyda diddordeb byw yn addysg eu plant a dyfodol eu cymunedau. Rhaid i arweinwyr doeth weithio gyda brwdfrydedd o'r fath – gan fod iddi werth cymunedol AC addysgol – yn hytrach na gwthio rhaglen trwodd ar eu gwaethaf. Hyderwn y bydd Cyngor Gwynedd yn gwrando'n astud ar eu dadleuon ac, o wrando, diwygio'r Cynllun yn sylweddol.

6. NEWIDIADAU STRATEGOL

Mae'r sylwadau hyn wedi cynnig ymateb i amcanion strategol y drafft-gynllun. Mae'n hollbwysig fod y Cyngor yn gwahodd yn agored yn ystod y cyfnod hwn trafodaeth o'r fath am y strategaeth sylfaenol yn hytrach nag ymgyfyngu i drafod sut i weithredu ei strategaeth mewn ardaloedd penodol.

Danfonir yr ymateb hwn i strategaeth y drafft-gynllun gan Grŵp Ymgyrch Addysg ganolog Cymdeithas yr Iaith - Tachwedd 2007. Daw ymatebion pellach gan ein haelodau yng Ngwynedd.

Ffred Ffransis

ffred@cymdeithas.org

<http://cymdeithas.org/addysg/>